| | |
|---|---|
| Cymdeithas<br>Amaethyddol<br>Frenhinol<br>Cymru | Royal<br>Welsh<br>Agricultural<br>Society |

# Ymunwch â'n tîm fel Cydlynydd Marchnata a'r Wasg

## Contract Cyfnod Penodol

## Cyfnod Mamolaeth

| Lleoliad | Oriau | Cyflog | Dyddiad Cau |
|---|---|---|---|
| Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys gydag opsiwn hyblyg/hybrid | Llawn amser Gorffennaf 2024 - Awst 2025, i'w drafod | Tua £24,000 y flwyddyn | Dydd Mawrth 30ain Ebrill 2024 |

### Y Cyfle

Rydym yn chwilio am Gydlynydd Marchnata a'r Wasg sy'n greadigol, dynamig a llawn cymhelliad i ymuno â'n tîm gan chwarae rhan ganolog yn yr hyrwyddo a'r cyfathrebu i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a'i digwyddiadau, yn cynnwys Sioe Frenhinol Cymru, y Ffair Aeaf a'r Ŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad. Cyfle llanw yw hwn dros gyfnod absenoldeb mamolaeth.

### Ynglŷn â Ni

Wedi'i sefydlu bron 120 o flynyddoedd yn ôl, ond gydag agwedd gadarn o gyfoes, mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru â lle unigryw yn nhirwedd wledig a diwylliannol Cymru. Fel elusen gofrestredig, ein nod craidd yw hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy, garddwriaeth, coedwigaeth, cadwraeth a'r amgylchedd yng Nghymru. Rydym yn cyflawni'r amcanion hyn trwy gynnal tri digwyddiad mawr bob blwyddyn, ochr yn ochr â nifer o wobrau, bwrsarïau ac ysgoloriaethau.

Yn ogystal â'n digwyddiadau ein hunain, rydym yn croesawu nifer o ddigwyddiadau trydydd parti ar ein maes sioe 150 erw, gan gynhyrchu incwm allweddol i fod yn sail i'n gwaith elusennol.

Wrth edrych ymlaen bydd angen i'r Gymdeithas, fel pob sefydliad, ddatblygu er mwyn aros yn berthnasol. Mae gennym nifer o brosiectau cyffrous yn yr arfaeth ac ymgyrch i groesawu newid a thyfu llwyddiant ein digwyddiadau.

Felly, mae'r Cydlynydd Marchnata a'r Wasg yn aelod hollbwysig o Dîm Marchnata'r Gymdeithas, yn adrodd i Bennaeth Datblygu Busnes, gan weithio'n agos â'r Swyddog Marchnata a Chyfryngau Cymdeithasol, tîm y Staff, a Phwyllgor Marchnata a Chyfathrebu'r Gymdeithas ac yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y cyfryngau.

### Cyfrifoldebau Allweddol

Mae'r swydd yn eang ac yn amrywiol; yn cwmpasu pob agwedd ar Farchnata a chysylltiadau cyhoeddus i'r Gymdeithas a'r tri phrif ddigwyddiad a bydd yn cynnwys:

- Darparu cynllun cyfathrebu dwyieithog a bywiog trwy gyflwyniadau, datganiadau i'r wasg a chylchlythyrau.
- Cysylltu â'r cyfryngau, y cyhoedd, a sefydliadau partner eraill ac ateb ymholiadau ganddynt.
- Datblygu Gwefan ac Ap y Gymdeithas yn barhaus.
- Hwyluso gofynion y wasg mewn digwyddiadau.
- Cysylltu â swyddogion teledu a radio, a'r wasg.
- Cynhyrchu ymgyrchoedd effeithiol i feithrin ymgysylltu, gwella proffil y Gymdeithas gyda'r nod o gynyddu refeniw.
- Cyfle i fod yn arloesol, creadigol mewn cysyniadau gyda'r nod o hyrwyddo pob agwedd ar y Gymdeithas, yn cynnwys digwyddiadau, ymwneud elusennol, recriwtio.
- Yn llawn dychymyg wrth ddylunio, cyflwyno gyda geirfa ragorol ar gyfer cynnwys o fewn taflenni, adroddiadau, pamffledi ayb.
- Bod ag ymwybyddiaeth o weithio o fewn cyllidebau a chadw at raddfeydd amser pwysig.
- Bod â'r gallu mewn cyfathrebu effeithiol gan weithio ochr yn ochr â chroestoriad o bersonél, yn cynnwys dylanwadwyr uchel eu proffil.

Mae hon yn swydd unigryw, gyda chyfleoedd gwych, ac rydym yn chwilio am rywun i ymuno â'r tîm fel mesur dros dro dros gyfnod absenoldeb mamolaeth.

Tîm bychan ydym a bydd yna orchwylion sy'n dod y tu allan i'r cyfrifoldebau allweddol uchod. Felly, bydd angen ichi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i'r gofynion.

Mae angen ichi fod yn llawn angerdd ac yn ymroddedig i lwyddiant hirdymor y Gymdeithas tra byddwch yn gallu gweithio dan bwysau, trin blaenoriaethau lluosog, bod yn greadigol a chwrdd â therfynau amser.

### Ynglŷn â Chi

Mae'r swydd yn adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth Datblygu Busnes ac mae'r nodweddion canlynol yn rhinweddau personol pwysig ar gyfer y swydd. Sylweddolir efallai na fydd un ymgeisydd yn meddu arnynt i gyd. Er hynny, defnyddiwch eich cais i ddangos sut y gall eich profiad, eich sgiliau a'ch gwybodaeth gwrdd â gofynion cyflawni'r swydd hon.

### Profiad

- Llwyddiant blaenorol mewn ysgrifennu creadigol.
- Dangos diddordeb cryf yn y cyfryngau a gwybodaeth dda am gysylltiadau yn y wasg.
- Rheoli a chydlynu digwyddiadau a gweithgareddau.
- Cadw at gyllidebau a osodwyd.
- Llwyddiant blaenorol o ran gwaith tîm rhagorol.
- Gallu i weithio mewn ffordd drefnus a rhagweithiol.
- Cymhwyster cydnabyddedig mewn Marchnata a/neu brofiad Marchnata addas mewn swydd berthnasol.

### Sgiliau a gwybodaeth

- Sgiliau dylunio rhagorol.
- Yn hyddysg mewn TG, yn defnyddio meddalwedd dylunio creadigol (Canva) a gwefannau (Word Press).
- Arloesedd a chreadigrwydd.
- Sylw astud i fanylion a bod yn drefnus.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

- Ymarweddiad cyfeillgar, agos-atoch, a hyderus.
- Y gallu i weithio ar eich menter eich hun yn ogystal ag o fewn tîm.
- Gallu i sgwrsio yn Saesneg a Chymraeg (dymunol).

## Gwybodaeth hanfodol

- Prawf o hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

I drafod y swydd yn anffurfiol, mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i gysylltu â Phennaeth Datblygu Busnes, Clare James (clare@rwas.co.uk).

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch CV a llythyr eglurhaol at Caron W Evans, Pennaeth Gweinyddu (recruitment@rwas.co.uk).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12 hanner dydd ddydd Mawrth 30ain Ebrill 2024.**

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar **ddydd Iau 9fed Mai 2024.**

---

AMODAU A THELERAU CYFLOGAETH CYFFREDINOL

| | |
|---|---|
| Oriau llawn amser: | 36.25 awr yr wythnos. Mae dull hybrid a hyblyg o weithio yn bosibl fel y cytunir â'r Rheolwr Llinell. |
| Oriau ychwanegol: | Bydd rhaid i ddeiliad y swydd weithio oriau ychwanegol wrth baratoi ar gyfer 3 digwyddiad yr elusen. |
| Gwyliau: | 24 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau cyhoeddus arferol pro rata. |
| Buddion: | Bydd Deddf Pensiwn 2011 yn berthnasol. |

---